



# Atodiad 1 / Appendix 1
## Llwybr Cyhoeddus Honedig / Alleged Public Footpath
## Harbwr Nefyn Harbour, Nefyn, LL53 6EP
## Cyf. Grid (oddeutu) / Grid Ref. (approx) SH 2940

0 15 30 60 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000821460
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey ac0000821460

**Crynodeb o Dystiolaeth.**

| Rhif Cyfeirnod y Defnyddiwr | Enw'r Hawliwr | O | I | Amlder | Diben y Defnydd | A wyddoch am unrhyw rybuddion sydd wedi bodoli ar y llwybr honedig hwn, gan gynnwys y geiriad? | Ydych chi wedi cael eich gwrthod rhag cael mynediad neu wedi cael eich herio wrth ddefnyddio'r llwybr honedig? | Os ydych wedi cael eich cyflogi gan neu yn denant i dirfeddiannwr, rhowch fanylion y denantiaeth / cyflogaeth | Gwybodaeth arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rodney Jones | 1970 | Heddiw | Dyddiol | Adloniant/Busnes | Arwydd llwybr cyhoeddus. | N/A | N/A | Y llwybr sydd yn rhedeg o flaen y cytiau a'r tai o'r ddau siop gornel tuag at y trwyn. |
| 2 | Kevin Massarelli | 1974-1991 2018 | Heddiw | Wythnosol | Adloniant/Busnes<br><br>Byddwn yn defnyddio'r llwybr hwn pan fydd y llanw yn uchel sydd yn gwneud hi'n amhosib cerdded ar y traeth. Perchenog cwch pysgota sydd angen mynd at y gwch ydw'i. | Arwydd llwybr cyhoeddus sydd wrth ymyl y ffynnon. | N/A | N/A | Yn traeth Nefyn, ar ben y clogwyn Nefyn, mae yno lwybr yn mynd lawr i draeth Nefyn. Mae llwybr yma yn mynd o flaen y cytiau lan y mor, heibio Penogfa ar ffynnon, heibio ffrynt y tai, heibio'r cytiau lan y mor ac ymlaen i'r harbwr. |
| 3 | Kenneth Jones | 1968 | 2018 | Wythnosol | Adloniant/Busnes<br><br>Pysgotwr | Arwydd llwybr cyhoeddus | N/A | N/A | Llwybr o ben rallt ag ar hyn lan y mor. |
| 4 | David Phillips | 1964 | Heddiw | Wythnosol | | Arwydd llwybr cyhoeddus | Dim o gwbwl. | N/A | Mae'r llwybr troed wedi ei leoli o flaen Penogfa a Hen Dafarn, Glan y Mor, Hafod y Mor, cytiau pystogtwyr. Does dim giatiau nag camfeydd ar y llwybr. Mae'r llwybr yn cael ei ddefnyddio'n aml pryd mae hi'n llanw gwanwyn ac llanw uchel allan. |
| 5 | Claire Roberts | 1980 | Dal i ddefnyddio. | Misol | Adloniant<br><br>I arbed mynd ar y ton, 'safach' i blant. | - | N/A | N/A | Ar lon gam i lawr y traeth i Nefyn. Mae mainc ger y llwybr, wedi defnyddio y llwybr ar mainc ar hyd y blynyddoedd hefyd rŵan mae fy mhlant yn defnyddio y llwybr ar fainc. Mae lon yn berig yn y haf ac mae llwybr yno yn bwysig. |
| 6 | Awen Hughes | 1973 | 2018 | Dyddiol. Wythnosol. Misol. Blynyddol. | Adloniant/Eraill<br><br>Ar lanw uchel. | - | N/A | N/A | Llwybr troed heibio clwb hwylio lon y mor Nefyn heibio talcian Penogfa ac ymlaen heibio y tai eraill ymlaen am y morglawdd. |
| 7 | Dyfed Davies | 1983 | 2018 | Dyddiol.<br><br>Mae fy ngwaith pysgota yna, maen fywoliaeth i mi. | - | Dwi'n cofio polyn pren ger Penogfa gyda arwydd llwybr arno. | Do, lawer gwaith gan Jane Spencer a'i gwr David. | N/A | Mae'r llwybr hwn yn cychwyn or ffynnon ger Penogfa ac yn cario ymlaen at y polion rhwydi, pan mae'r llanw i mewn, maen amhosibl cerdded ar y tywod. Nid oes posib stopio y mor danfon mewn. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Bryn Roberts | 1955 | 2018 | Wythnosol<br><br>Defnyddio i fynd at fy nghwch rhwyfo a polion rhwydi pan mae llanw i fewn. | - | Arwydd wrth ymyl y ffynnon golchi rhwydi. | N/A | N/A | Mae'r llwybr yn cychwyn wrth ymyl y ffynnon draw at y tai ac yno o flaen y tai tuag at y polion rhwydi a'r cychod rhwyfo a cytiau pysgotwyr. |
| 9 | David Roberts | 1998 | 2018 | - | - | Wedi defnyddio'r PROW dros 20 mlynedd i fynd at cychod. | Mae yna arwydd wrth ymyl yr ffynnon. | - | Llwybr yn dod lawr grisiau lan mor heibio clwb hwylio, heibio yr ffynnon ac ar ben wal heibio tai lan y mor ac fyny at yr postiau rhwydi. Pysgotwyr wedi defnyddio PROW dros 100 mlynedd. |
| 10 | Gareth Glyn | 1996 | 2018 | -<br>Wedi defnyddio PROW blynyddoedd i fynd at y cwch a rhwydi. | - | Arwydd wrth y ffynnon. | - | - | Mae'r llwybr yn mynd heibio ffynnon a wedyn yn cario ymlaen tŷ allan i'r tai sydd ar lan y mor. |
| 11 | Menai Vaughan | 1950 | 2018 | Misol<br><br>I fynd i'r cwt ac hefyd i creigiau mawr pan mae'r llanw yn uchel. | - | - | - | - | Mae'r llwybr cyhoeddus yn mynd heibio'r tai ar lan y mor Nefyn or ''Dafarn Fach'' cynt i'r pen draw. Lle mae'r polion cadw rhwydau pysgota. Mae'n bwysig cael y llwybr yma i'r pobol sydd a cytiau yn y pendraw yn enwedig pan mae'r llanw yn uchel ac hefyd mae'r pobol hefo cytiau yn talu'r dreth. |
| 12 | Glenda Rice | 1970au | Heddiw<br><br>Ffordd yma roeddem yn mynd yn plant i creigiau bach. Hefyd ffordd yma roeddwn yn mynd i'r adegau penllanw. | Wythnosol<br><br>Rwyf yn hoffi cerddedd ffordd hyn fel yr oeddwn yn blentyn | Adloniant | Dwi'n coelio bod arwydd llwybr cyhoeddus melyn a gwyrdd rhwng Penogfa a'r Hen Ogfa. | Blynyddoedd yn ôl dywedodd perchenog ar y ni pen (B) wrth un o fy mhlant nad oedd ganddi hawl i fynd heibio ei thu ac iddi fynd ar y traeth. | | Mae o'n lwybr troed yn cychwyn wrth ymyl Penogfa ac yn mynd heibio y rhesiad o dai a draw am y cytiau pellhau. |
| 13 | Rhiannon Dullaghan | 1970au | Heddiw<br><br>Teulu sydd yn berchen a'r cwt coch ar yr ochor a Penogfa. Ers yn blentyn | Blynyddol. | Adloniant | Rwyf yn cofio arwydd llwybr cyhoeddus ers yn blentyn lle mae llwybr troed yn cychwyn. | - | - | Y llwybr troed cyhoeddus fydd yn cychwyn wrth ochor Penogfa a mynd heibio y rhesiad o dai at y pen arall ac yn ymuno a coed rwydi lle maer arwydd gwybodaeth am Nefyn rŵan. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | rwyf wedi troedio y llwybr yma. | | | | | | |
| 14 | Eirian Rice | 1970 | Heddiw | Wythnosol/Misol | Adloniant<br><br>Byddaf yn cerdded ar hyd y llwybr yma yn aml. | Dwi'n cofio arwydd wrth le mae'r llwybr troed yn cychwyn (ochor y ffynnon) pan oeddwn yn blentyn.<br><br>Arwydd llwybr cyhoeddus oedd yno. | - | - | Llwybr troed sydd yn cychwyn wrth ochor Penogfa (fel sydd ar y map) ac yn mynd ar hyd y rhes tai i'r pen arall ac yn ymuno a'r slip. |
| 15 | Aled Hughes | 47 o flynyddoedd<br><br>1971 | 2018 | Wythnosol | Adloniant<br><br>Adloniant yn y wythnos fel plentyn ac yn y 20 mlynedd ddiweddaf. | - | - | - | Llwybr troed sydd yn mynd heibio clwb hwylio a talcen Penogfa ac ymlaen heibio y tai eraill yn harbwr Nefyn.<br><br>Fel plentyn roeddwn yn cerdded y llwybr efo fy nain a'n nhaid a oedd yn enedigol o Nefyn ac roedden nhw yn defnyddio'r llwybr fel plant. |
| 16 | Catherine Rice | 1940au | Heddiw | Wythnosol | Adloniant<br><br>Adloniant- Mynd am dro. Gweld o'n hawdd cerdded y llwybr yma yn hytrach nag y tywod oherwydd problemau gyda fy nghluniau. | Arwydd llwybr cyhoeddus ochor y ffynnon. Gwyrdd oedd lliw yr arwydd. | Naddo, nid i mi yn bersonol ond aelod arall o'r teulu. | - | Y llwybr troed ar hyn y ffrynt y rhesiad o dai sydd yn arwain at coed rhwydi a'r slip. Gweler y map. |
| 17 | Nia Roberts | 1980au | Heddiw | Dyddiol | Adloniant<br><br>Mae yn saff i blant gerdded lawr y llwybr hon gan fod lon gam mor berig, yn enwedig yn yr haf. | | - | - | Hanner ffordd lawr lon gam, draws y ffordd i'r toiled yn lle mae'r mainc. |
| 18 | Carys Roberts | 1980 | Heddiw | - | Adloniant | Arwydd llwybr cyhoeddus yn ymyl Penogfa. | Naddo- Dim ar ôl i pysgotwyr Nefyn ffraeo efo'r perchnogion y tai. | - | Llwybr o'r slip heibio'r ffynnon a draw am y cytiau pennaf. |
| 19 | Eirianwen Williams | 1934 | 2018 | Dyddiol. Wythnosol. Misol. Blynyddol. | Adloniant.<br><br>Dyddiol fel plentyn ac wan dibynnu ar y tywydd. | - | N/A | - | O cwt hwylio lle bu caffi Lacasina, o flaen y rhes tai, pasio Penogfa ar lanw llawn ar rhyd ffrynt y tai tu ôl i'r wal, tuag at y clogwyn mor. |
| 20 | Irene Roberts | 1965 | 2018 | - | - | Arwydd llwybr cyhoeddus wrth y wal. | Na | - | O'r llwybr ewch lawr i'r lan y mor, heibio Penogfa, heibio wal, heibio ffrynt o'r Hen Dafarn ac y tai eraill i fynd at yr harbwr. |
| 21 | Margaret Roberts | Ers tro canrif diwethaf | Presennol. | Dyddiol<br><br>Yn ddyddiol fel pysgotwr. | Adloniant/Eraill | Mae arwydd rhwng Penogfa a Hen Dafarn sy'n dangos llwybr cyhoeddus. | Yn y gorffennol mynegodd perchnodgion un o'r tai, teulu Spencer. Nad oeddent yn hapus yn | | Hun a ddangosir ar y map atodol, mae'r llwybr o flaen y tai ar draeth Nefyn (A-B ar y map) atodol. Defnyddiwyd |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | hapus i ni dramwy ar hyd y llwybr. Byddai fy nhad yn benderfynol y dylem ddefnyddio'r llwybr pob amser. | | gennyf ar teulu ers degawdau i gyrraedd harbwr. |
| 22 | Olwen Glyn Jones . | 1956 | 2018 | Dyddiol yn yr haf. Wythnosol yn y gaeaf. | Adloniant.<br><br>I allu mynd at fy ngwt cerrig pendraw lan y mor ac i fynd at fy nghychod pysgota. | Llwybr cyhoeddus wrth Penogfa. | Dim gwrthod erioed. | - | Lleoliad y llwybr- rhwng y forglawdd harbwr, Nefyn hyd at y llwybr ''Ben Rallt''- llwybr arfordir Cymru. Mae gennyf gwt cerrig ym mhen draw lan y mor (talu trethi arno etc), ers pan roedd fy rhieni yn fyw. Mi fyddaf yn defnyddio y llwybr i fynd i'r cwt pan fydd y llanw yn uchel ac i fynd at fy nghychod. Heb y llwybr ni fyswn yn gallu mynd i fy nghwt pan mae llanw yn uchel. |
| 23 | Tony a Doria | 1988 | Presennol | Misol | Adloniant/Eraill.<br><br>Buom yn cadw cwch yn Nefyn am flynyddoedd ac yn defnyddio'r llwybr i gyrraedd yr harbwr. | Mae arwydd rhwng Penogfa a Hen Dafarn yn dynodi llwybr cyhoeddus. | Yn aml mae perchnogion y tai yn gosod cadeiriau i greu anhwylustod i dramwyr. | - | Hun a ddynodir ar y map atodol rhwng A-B. Yn ymyl y llwybr hwn yw'r unig ffordd i sicrhau mynediad ar droed i'r porthcadd. |
| 24 | Emma Louise Haque | 1984 | 2018 | Dyddiol/wythnosol. | Adloniant | I fynd i ein cwt yn y pendraw ac i fynd at ein cychod rhwyfo ac cwch pysgota. | Llwybr cyhoeddus wrth ymyl Penogfa. | Dim gwrthwynebiad erioed. | Lleoliad y llwybr yma yw rhwng y forglawdd harbwr Nefyn, hyd at y llwybr ''Ben Rallt'' sydd yn lwybr arfordir Cymru. Rydw'i, fy mhlant yn defnyddio'r llwybr yma yn ddyddiol dros yr haf oherwydd mae gennym gwt cerrig ym mhen draw lan y mor fel teulu- wedi cael ei roi lawr gan taid a nain. Gweler daflen ychwanegol am fwy o dystiolaeth.<br><br>Yn yr haf pan fydd y llanw yn uchel, yr unig ffordd gallwn fynd i'r cwt fydd cerdded ar hyd y llwybr yma i osgoi y mor ar tonnau.<br>Yn y gaeaf fydden yn mynd i'r lan y mor bob ychydig o wythnosau, felly yn dal i ddefnyddio'r llwybr.<br>Does neb wedi erioed ein rhwystro ni rhag defnyddio'r llwybr. |
| 25 | Ceri Akman | 1992 | Heddiw | Misol | Adloniant. | Arwydd mewn un lle. | Naddo | - | Yn unol a'r ffurflen ynghlwm. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 26 | Raymond Cotgrove | 1963 | Heddiw | Wythnosol yn yr haf. Misol yn y gaeaf. | Adloniant.<br><br>Busnes ar adegau ond adloniant erbyn hyn. | Mae arwydd llwybr cyhoeddus dal yna mewn un lle. | Naddo | - | Yn unol a'r ffurflen ynghlwm. |
| 27 | J. Cotgrove | 1938 | Heddiw | - | -<br>I fynd a dod or cwch ben llanw. | Arwydd- Llwybr cyhoeddus. | Naddo | - | Mae lleoliad y llwybr yn union fel sydd a'r y ffurflen. Nid oes rhwystr wedi bod ar y llwybr yna erioed. |


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Emma Louise Haque o Uwch y Don, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd LL53 6EG y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr troed yn cychwyn ar ben y 'cliffs' trwy fynd i lawr y grisiau. O'r fan hon, parhewch i gerdded ymlaen gan basio'r clwb hwylio ar y dde. Wrth i chi ddal i fynd ymlaen, byddwch yn pasio Pen Ogfa ac ymlaen i'r tri thŷ gwyn. Mae'r llwybr troed nawr o flaen y tai, weithiau byddem yn cerdded ar du mewn y wal ac fel plant ar y wal. Daw'r llanw i fyny at y wal hon ar lanw uchel, sy'n golygu eich bod chi'n cerdded ar du mewn y wal neu fel arall byddwch chi'n gwlychu. Ar ddiwedd y tai daw llwybr troed arall i lawr ac roeddem yn arfer ei ddefnyddio erstalwm. Yma bellach mae tirlithriad wedi digwydd ac wedi cymryd 2 o'r cytiau ac mae'r tirlithriad yn ei gwneud hi'n anodd cerdded heibio ar lanw uchel. Wrth i chi ddal i gerdded y llwybr troed rydych chi'n cyrraedd gweddill y cytiau ar y chwith. Mae ein cwt yng nghanol llinell o gytiau. Yn aml byddem yn casglu ein pethau traeth o'r fan hon ac rydym yn cadw ein cadeiriau yno. Fel hyn, gallwn dynnu'r cadeiriau allan a ei roi ar y darn o dir ar flaen y cwt i ymlacio a fwynhau'r haul. Weithiau rydyn ni'n parhau i lawr i ddiwedd y cytiau i'r creigiau. Mae'r plant yn hoffi chwilio am grancod yn y creigiau neu byddent yn chwarae ar y forglawdd ac weithiau'n neidio i'r dŵr.
3. Byddai fy mam a fy nhad yn aml yn mynd â ni i lawr y llwybr troed hwn ac mae'n rhaid eu bod wedi bod yn mynd â mi o dair oed ym 1981. Byddem yn cerdded y llwybr troed hwn gyda taid hefyd oherwydd ei fod yn arfer bod yn berchen ar y cwt a basiwyd i lawr ac roedd hefyd yn cadw cwch yma.
4. Rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr troed nawr gan y byddwn i'n mynd â fy mhlant i lawr i'r traeth bron bob dydd yn ystod yr haf, yn enwedig cyn i mi ddechrau gweithio. Mae gennym stôf yn y cwt ac ni fyddai angen i ni adael trwy'r dydd oherwydd gallem goginio brecwast, cinio a swper yn ein cwt. Yn ystod misoedd y gaeaf rwy'n tueddu i ddefnyddio'r llwybr troed yn llai aml, tua 2-3 yr wythnos. Mae'n bwysig fy mod i'n gallu cerdded y llwybr troed i edrych ar fy nghwt gan ein bod ni wedi cael pobol yn torri mewn i'r cwt o'r blaen. Hyd yn oed yn y gaeaf efallai y byddwn yn aros ychydig yn y cwt a byddem yn gwneud siocled poeth.
5. Fel arfer byddem yn cerdded y llwybr troed yno a'r un ffordd yn ôl oni bai bod fy mhlant eisiau cicio pêl ar y traeth wrth inni gerdded yn ôl.
6. Roedd yna amser pan na ddefnyddiais y llwybr troed yn fawr iawn a dyma pryd roeddwn i ym Mhrifysgol Bangor rhwng 1997 a 2001. Byddwn yn aros i ffwrdd am yr wythnos ond byddwn yn ôl bob penwythnos i weithio.
7. Credaf fod arwydd llwybr cyhoeddus ger y tai gwyn a Phen Ogfa. Rwy'n ansicr ond credaf ei fod yn wyrdd o ran lliw ac efallai ei fod ysgrifen "Llwybr Cyhoeddus" arno. Pan oeddem yn blant roedd pobl y tai yn tynnu'r arwyddion i lawr ond yna fe'u gwnaed i'w rhoi nhw'n ôl.
8. Nid wyf wedi cael fy herio'n bersonol er pan oeddwn i tua 5 neu 6 oed ym 1983, rwy'n cofio fy nhaid yn cael ei herio a gweiddi arno am gerdded y llwybr troed. Roedd y person hwn yn gweiddi yn rhywun yn byw yn y tai gwyn. Dywedodd fy nhaid wrthym y dylem ddal i gerdded ar hyd y llwybr troed oherwydd mae gennym yr hawl i wneud, na ddylem fod yn ofn a dylem anwybyddu'r hyn y maent yn ei ddweud. Cofiaf hefyd blant yn cael eu gweiddi am wneud cestyll tywod a chwarae yn y tywod ar flaen y tai. Roedd hyn tua 5 mlynedd yn ôl.

**Dyddiad:** 18/12/2021

**Llofnod:** [redacted]




Enw / Name: EMMA L. HAQUE

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: 18/12/2021

0 12.5 25 50 Medr / metre

**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Raymond Cotgrove o Meillion, Ceidio, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd LL54 8UG y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn trwy gerdded i lawr grisiau "Ben Rallt" i Waters Edge ar y chwith. O'r fan hon, ewch ymlaen yn syth gan basio'r cytiau lliwgar ar y chwith i'r tŷ olaf o'r enw Pen Ogfa. Ar ôl yma mae gap cyn y tri thŷ gwyn yn y rhes. Enw'r tŷ cyntaf yw'r Hendafarn, yma mae llwybr troed yn union o flaen y tai ar du mewn y wal. Wrth i chi symud ymlaen ewch i fyny'r grisiau o amgylch dau dri cham i Coed Rhwydi sydd wedyn yn pasio rhes o gytiau bach i'r chwith. Gallwch unai fynd tuag at y creigiau ar ddiwedd y cytiau neu trowch i'r dde i gerdded ar y 'breakwater'.
3. Rwyf wedi bod yn cerdded y llwybr troed hwn ers imi allu cerdded, fodd bynnag fy atgofion cynharaf o gerdded y llwybr troed hwn yw pan oeddwn yn 9 oed, oeddetu yn y 1960'au. Rwy'n cofio cerdded i lawr gyda fy nhaid a oedd â chwt a chwch i lawr wrth yr harbwr.
4. Mae llwybr troed arall sy'n dod i lawr ochr Hendafarn a thua mis Mawrth y llynedd digwyddodd tirlithriad. Nawr mae'r rhan hon o'r llwybr wedi'i gladdu ac mae ganddo ffens fawr o'i gwmpas gan ei gwneud hi'n amhosibl mynd heibio os yw'r llanw i mewn.
5. Rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr troed heddiw ac yn ystod misoedd yr haf byddwn yn mynd ar y llwybr troed hwn tua 2-3 gwaith yr wythnos. Mae fy nefnydd o'r llwybr yn aml yn amrywio yn ôl y tymhorau a'r tywydd oherwydd weithiau yn yr haf byddaf yn cerdded ar y llwybr hwn ddwywaith mewn un diwrnod. Yn ystod mis y gaeaf byddwn i ar y llwybr troed o leiaf unwaith y mis.
6. Weithiau byddwn yn gwneud cylch daith fach ond nid bob tro. Rwy'n cerdded i lawr y steps o "Ben Rallt" ar y llwybr troed ac yna ar y 'breacwater' ac yn ôl i fyny Coed Rhwydi ac yn rownd yn ôl i'm cartref.
7. Rwy'n gyson wrth ddefnyddio'r llwybr troed a'r unig amser na fyddwn yn ei ddefnyddio yw pan fyddaf ar wyliau am wythnos neu ddwy.
8. Weithiau, rydw i'n mynd i lawr ar y llwybr troed gyda theulu a ffrindiau. Mae llawer o bobol ddim yn teimlo mor awyddus i gerdded ar y llwybr troed hwn bellach oherwydd yr ymddygiad gan bobl yn y rhes o dai. Weithiau bydd fy ngwraig yn dod gyda mi er nad yw hi'n awyddus iawn i ddod chwaith.
9. Mae arwydd llwybr cyhoeddus ym Mhen Ogfa ger y tŷ cyntaf yn y rhes. Mae'n arwydd gwyrdd gyda saeth felen ac mae ganddo hefyd ddyn bach gwyn yn cerdded arno. Mae ar bostyn dur yn y ddaear.
10. Nid wyf erioed wedi cael fy herio'n bersonol er fy mod wedi clywed am lawer o bobl eraill yn cael trafferth wrth fynd heibio. Yn aml gall fod yn anefir pasio blaen un o'r tai oherwydd eu bod yn gosod bwrdd a chadeiriau yn ffordd y llwybr gan ei gwneud yn llai cyfleus i'w defnyddio.

**Dyddiad:**......6/4/22......

**Llofnod:**...[redacted]




**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

0 12.5 25 50 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Gruffydd Williams o 3 Llys Llywelyn, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6JF y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn dechrau wrth gerdded lawr grisiau'r hyn sy'n " Ben Rallt ". O'r fan hon parhewch syth ymlaen i basio'n thŷ stilt ar eich ochr chwith gyda'r "slipway" ar yr ochor dde. Daliwch i gerdded ymlaen rhwng y cytiau ar y chwith a'r adeilad bach y clwb hwylio ar y dde, gan gerdded tuag at Pen Ogfa, lle mae'r fynnon. Yma rydych yn cerdded i fyny ychydig ar dir gwair garw. Yn hanesyddol, mae'r darn hwn o dir yn uwch fel y gall y pysgotwyr barhau i ddrwsio ac adeiladu cychod pan oedd y llanw i mewn. Yma gallwch weld olion troed yn y gwair, lle mae pobol wedi cerdded. Parhewch i gerdded ymlaen dros y tir garw hwn ac yna rydych yn dod allan o flaen y tri thŷ gwyn, lle mae'r Hen Dafarn. Mae'r Hen Dafarn yn le hanesyddol lle byddai lawer o bysgotwyr yn mynd. O flaen tai gwyn, mae yna dywod suddo yno, felly mae'n fwy diogel cerdded ar y llwybr troed o flaen y tai. Wrth ichi gerdded yn union o flaen y tai, ar du mewn i'r wal tan ddiwedd y tai, mae'r llanw yn cyrraedd y wal hon pan mae'r llanw i mewn. Ar ôl diwedd y tai, mae un neu ddau o grisiau i gerdded i'r rhan nesaf o dir sydd wedi'i godi. Wrth y grisiau yma mae'r llwybr troed arall yn dod i lawr. Bellach mae'r llwybr troed hwn wedi mynd yn rhy serth ac yno mae llawer o lus dyfiant ar ei hyd. Digwyddodd tirlithriad ar ddiwedd y tai yn ddiweddar ac mae'r grisiau bach wedi ei orchuddio. Wrth ichi gerdded ar y tir garw sydd wedi'i godi ychydig, hwn yw'r ail le byddai'r pysgotwyr yn adeiladu llongau. O'r fan hon, ar y chwith mae yna lawer o gytiau lan y mor, yma gallwch chi droi i'r dde a cherdded ar ben y 'slipway' i'r forwal neu ddiwedd y cytiau lan y mor, tuag at y creigiau. Yn hanesyddol, roedd y llwybr yn cael ei ddefnyddio gan lawer o bysgotwyr ac yn dal i barhau i ddefnyddio hyd heddiw, ond mae diwydiant twristiaeth wedi cynyddu ac rŵan mae lawer o ymwelwyr mwynhau cerdded ar y lwybr troed hwn hefyd.
3. Un o fy atgofion cynharaf sydd gen i o gerdded y llwybr troed hwn oedd pan oeddwn i'n 7 oed, ym 1966. Rwy'n cofio'n arbennig y tro hwn oherwydd dyma pryd y torrais fy nghoes pan oeddwn i'n dod i lawr y grisiau ar y llwybr troed. Byddwn yn aml yn mynd i lawr i'r traeth i chwarae gyda ffrindiau, roeddem bob amser yn yr awyr agored fel plant.
4. Rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr troed heddiw a byddwn fel arfer yn mynd ar y llwybr troed unwaith yr wythnos. Rwy'n cadw cwch yma a byddwn i'n mynd i gaiacio oddi yma hefyd.
5. Weithiau pan fyddaf yn cerdded y llwybr troed byddwn yn gwneud cylch daith. Byddwn yn mynd i lawr ar y llwybr troed, hyd at ddiwedd y cytiau lle mae'r creigiau a cherdded o gwmpas i ble mae pobl leol yn galw " Pen Peryn " ac ymlaen i Bwlch Glas, lle mae pobl yn hoffi casglu cregyn gleision. O'r fan hon, yna weithiau byddaf yn mynd i Bwlch Bridin, Morfa Nefyn. Weithiau byddwn yn defnyddio'r llwybr troed hwn, ar y creigiau ac yn parhau i Porthdinllaen.
6. Yr unig gyfnod o amser lle na allwn ddefnyddio'r llwybr troed yw pan dorrais fy nghoes yn 7 oed ym 1966. Roeddwn yn gwella am oddeutu 6 wythnos ar ôl y ddamwain.
7. Fel arfer, rydw i'n mwynhau'r llonyddwch o gerdded ar fy mhen fy hun ond weithiau byddai fy nghariad yn dod i gerdded gyda fy ffordd hon hefyd.
8. Mae arwydd llwybr cyhoeddus tua 10 cam i ffwrdd o'r Hen Dafarn ac wrth ymyl Pen Ofga lle mae'r nant. Mae'n wyrdd mewn lliw ac mae ar bolyn dur yn y ddaear. Mae'r saeth yn pwyntio'n syth o flaen y tai. Rwy'n credu ei fod yn dweud unai "Public Footpath" yn Saesneg neu "Llwybr Cyhoeddus" yn Gymraeg.
9. Nid wyf erioed wedi cael fy herio am ddefnyddio'r llwybr troed hwn ac nid oes unrhyw un wedi trio rhwystro fy ffordd. Rwyf wedi clywed am bobl yn cael eu gweiddi ar am eistedd ar y traeth tywod gwyn o flaen y tai o'r blaen.

**Dyddiad:** 27/12/2021

**Llofnod:** [redacted]




**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

0 12.5 25 50 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Rodney Jones o Machlud Haul, Cefn y Twr, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr troed yn cychwyn ar ben Pen Rallt ac yn mynd i lawr grisiau cul serth nes cyrraedd y rhan goncrit gyda'r 'slipway' ar y dde a'r shalley ar y chwith. Parhewch ymlaen gan basio'r cytiau nes cyrraedd Pen Ogfa lle dewch at ran o laswellt. Yna mae'r llwybr yn mynd tuag at y tri thŷ gwyn, camwch i lawr ar y patio a cherdded ar y tu fewn i'r wal, yn enwedig ar lanw uchel. Weithiau byddwn i'n cerdded dros y tywod. Yna byddwch yn parhau tuag at Polion Rhwydi lle mae 'slipway' arall neu gerdded ar y rhan laswellt, mae'n dibynnu lle rydych am fynd naill ai i'r cytiau neu'r morglawdd. Weithiau byddwn i'n mynd i'r creigiau ond ddim yn aml iawn.
3. Rwyf wedi bod yn defnyddio'r llwybr hwn ers pan oeddwn yn blentyn, tua 8-9 oed yn y flwyddyn 1974/1975. Byddwn yn aml yn mynd i lawr gyda fy nhad gan ei fod yn arfer cadw cwch yn yr harbwr. Byddwn ar y llwybr bron bob dydd yn ystod gwyliau'r haf, naill ai gyda fy ffrindiau neu fy nheulu.
4. Rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr troed heddiw gan fod gennyf fy nghwch fy hun yr wyf yn ei gadw i lawr yn yr harbwr ac a fyddai yno bron bob dydd. Mae fy nefnydd yn ychydig llai yn y gaeaf oherwydd rwy'n mynd a fy nghwch rownd i Borthdinllaen.
5. Fel plentyn byddwn yn cerdded ar y llwybr hwn tuag at ddiwedd y cytiau, dros y creigiau ac yn gwneud fy ffordd yn ôl trwy fynd i fyny'r clogwyn. Nawr fy mod yn hŷn, mi fyddwn dim ond yn mynd ar y llwybr ac yn dychwelyd yr un ffordd yn ôl. Weithiau byddai fy ngwraig a'm plant yn mynd gyda mi ar y llwybr hefyd.
6. Mae arwydd llwybr cyhoeddus ger Pen Ogfa. Mae'n arwydd siâp saeth ac yn werdd mewn lliw ar bostyn metel, yn pwyntio tuag at y creigiau.
7. Nid wyf erioed wedi cael fy herio nac wedi cael fy stopio am ddefnyddio'r llwybr troed. Mae pobl y tai gwyn yn ffrindiau gyda fi a fy nhad ac nid ydym wedi cael unrhyw drafferthion pasio.

**Dyddiad:**[redacted]................

**Llofnod:**...30/03/22...........




**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

0 12.5 25 50 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Kenneth Jones o 16 Glan y Pwll, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.

2. Mae'r llwybr yn cychwyn ar waelod y grisiau ac yn parhau ymlaen heibio'r 'workshop' gyda'r 'shalley' uwch ben, yna pasio rhai cytiau ar y chwith i Ben Ogfa. Ar ôl yma mae yna fwlch i'r rhes o dai gwyn, lle mae'r teulu Spencers yn byw. Mae'r llwybr yn arwain o flaen y tai ar du mewn y wal. Weithiau byddem yn cerdded ar y wal hefyd. Yn y tŷ pen mae tirlithriad yn gorchuddio rhan o'r llwybr troed. Oddi yma, ar y chwith mae rhes hir o gytiau a'r 'slipway' i'r dde.

3. Rwyf wedi bod yn defnyddio'r llwybr troed hwn ers 1966, 55 mlynedd yn ôl. Yr unig amser y byddwn i'n defnyddio'r llwybr hwn yw dim ond pan oedd hi ar 'high water' pan rwyf yn mynd lawr i edrych fy nghwch. Fel arall byddwn yn cerdded ar y traeth i gyrraedd fy nghwch. Ar 'high water', byddwn yn cerdded ar y llwybr troed tua dwywaith y mis, roedd hyn yn ddibynnol iawn ar dywydd ac amser y flwyddyn.


4. Fe wnes i roi'r gorau i ddefnyddio'r llwybr troed 10 mlynedd yn ôl tua 2011. Dyma pryd symudais i dŷ i Porthdinllaen ac nid oes angen i mi ei ddefnyddio bellach.

5. Mae arwydd llwybr cyhoeddus ger Phen Ogfa ger y ffynnon ar dir garw uchel. Mae'r arwydd yn wyrdd mewn lliw ac ar bostyn metel yn y ddaear. Nid wyf yn siŵr a yw yno dim mwy.

6. Nid wyf erioed wedi cael fy herio am gerdded y llwybr troed hwn. Rwy'n dod ymlaen yn iawn gyda'r teulu Spencer.

**Dyddiad:**...[redacted]

**Llofnod:**...1 - 4 - 22...




**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

0 12.5 25 50 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Bryn Roberts o Briarfold, Lon y Castell, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn ar waelod y grisiau wrth ymyl y clwb hwylio. O'r fan hon, rydych chi'n parhau i gerdded ar y llwybr troed i'r ffynnon wrth ymyl Pen Ogfa, sef y tŷ ar ddiwedd y cytiau. Mae'r rhan yma o'r llwybr gyda hoel cerdded yn y gwair. Wrth Pen Ogfa mae arwydd llwybr cyhoeddus. O fan hon mae'r llwybr troed yn union o flaen y tai gwyn ar yr ochor mewn i'r wal. Weithiau pan fyddem yn cerdded yma rydym yn cerdded ar y wal. Hen Dafarn yw'r enw y tŷ cyntaf ac yma mae tirlithriad wedi digwydd yn ddiweddar ger y tŷ olaf yn y rhes. Oddi yma mae'r llwybr troed parhau yn syth i'r rhes o gytiau. Yma gallwch droi i gerdded ar y 'slipway' neu fynd i ddiwedd y cytiau lle mae'r creigiau. Pan ddaw'r llanw i fyny yr unig ffordd i gyrraedd y cytiau yw defnyddio'r llwybr troed hwn. O amgylch y tirlithriad mae ffens mawr a rwan pan fydd y llanw'n uchel mae'n ei gwneud hi'n anodd iawn pasio.
3. Dechreuais ddefnyddio'r llwybr troed gyntaf ym 1956 pan oeddwn tua 7 neu 8 oed. Byddem yn cerdded yma bob dydd. Rwyf bellach yn 72 ac yn parhau i ddefnyddio'r llwybr troed. Fel arfer, byddwn i'n mynd unwaith yr wythnos yn yr haf ac unwaith bob pythefnos yn y gaeaf. Mae angen i mi fynd y ffordd hon i edrych ar ôl fy nghwch a hefyd mae gen i gwt tymhorol ar ddiwedd y llwybr.
4. Mae'n well gen i gerdded fel hyn gyda'r nos gan mai dyma pryd mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr wedi mynd adref a'i brafiach pryd mae hi'n ddistaw o gwmpas.
5. Weithiau pan fyddaf yn cerdded ar y llwybr troed hwn byddaf yn mynd gyda dau neu dri ffrind byddem yn mynd i bysgota am fecryll.
6. Mae arwydd llwybr cyhoeddus wrth ymyl y nant ym Mhen Ogfa, gallwch weld olion y llwybr yn ei basio. Mae ar bolyn dur ac mae'r arwydd yn wyrdd gyda 'llwybr cyhoeddus' mewn ysgrifennu gwyn.
7. Nid wyf erioed wedi cael fy herio fy hun ond wyddom am lawer o bobl sydd wedi cael eu herio. Teulu Spencer sydd fel arfer yn dod allan ac yn gweiddi ar bobl am gerdded o flaen y tai. Mae'r sefyllfa wedi mynd mor ddrwg rŵan maent yn hel pobl o'r traeth os ydyn nhw'n eistedd yn unrhyw le ger eu tŷ.

**Dyddiad:** 27/12/21

**Llofnod:** [redacted]




**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Glenda Rice o Disgwylfa, Stryd y Llan, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6HY y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr troed yn cychwyn drwy fynd i lawr y grisiau i lawr tuag at y cytiau ar y chwith wrth ymyl y 'slipway' ar y dde. Ein teulu ni sydd biau'r cwt coch yn y rhes hon sydd tua dau gam o Ben Ogfa. Mae'r llwybr yn parhau heibio Pen Ogfa, dyma lle mae'r ffynnon lle'r oedden ni'n arfer chwarae ynddi pan yn blant. Mae'r ffynnon hefyd yn hanesyddol lle roedd pysgotwyr yn golchi eu rhwydi. Nawr mae'r ffynnon wedi'i gorchuddio â llechan drwm. O'r fan hon byddwch yn cerdded ar ychydig o wair, lle mae pysgotwyr yn cadw eu cychod ac yna'n cymryd y dau step i lawr at y teils llechi o flaen y tri bwthyn gwyn. Mae'r teils ar y tu fewn i'r wal a rwy'n cerdded reit o flaen y bythynnod bob tro ac oherwydd ar lanw uchel mae'r dwr yn dod reit at y wal. Wrth y bwthyn olaf, mae tirlithriad wedi digwydd yn eithaf diweddar, felly af o gwmpas a cherdded i fyny'r 'slipway' bach arall, ac yna ar y gwair ac unai troi at y morglawdd neu'r creigiau mawr ar ddiwedd y rhes arall o gytiau ar y chwith.
3. Dwi wastad wedi cerdded y llwybr troed ers yn blentyn i gerdded lawr i'r cwt teulu, chwarae a gwneud cacennau mwd yn y ffynnon wrth Pen Ogfa ac i fynd i'r traeth neu'r creigiau mawr.
4. Erbyn hyn rydw i'n 55 ac yn dal i ddefnyddio'r llwybr heddiw i fynd am dro a byddwn fel arfer yn cerdded y llwybr unwaith yr wythnos yn bennaf ar benwythnosau gan fy mod yn gweithio yn ystod yr wythnos. Weithiau byddwn yn defnyddio llai ar y llwybr yn ystod misoedd y gaeaf.
5. Pan oeddwn yn iau byddwn yn cerdded ar y llwybr tuag at y creigiau mawr ac yn gwneud cylchdaith bach drwy fynd i fyny'r clogwyn. Nawr dwi'n meddwl bod y clogwyn ychydig yn ansefydlog i'w ddefnyddio'n aml. Rŵan byddaf yn cerdded y llwybr yn bennaf at y creigiau mawr neu'r morglawdd a cherdded yr un ffordd yn ôl.
6. Mae arwydd llwybr cyhoeddus rhwng Pen Ogfa a'r bythynnod gwyn ac mae'r arwydd ger y ffynnon. Arwydd gwyrdd ydyw, ar bolyn dur gyda symbol o ddyn gwyn yn cerdded arno.
7. Nid wyf erioed wedi cael fy herio na fy stopio am ddefnyddio'r llwybr oherwydd fy mod yn gwybod gennyf yr hawl i gerdded y ffordd hon. Wyddwn i nad yw perchennog y bythynnod yn hoffi fy ngweld yn cerdded y ffordd hon ond nid yw hyn yn fy atal rhag cerdded heibio. Roedd fy nheulu, yn enwedig fy nain a fy nhaid yn cerdded y ffordd hon heb drafferth ac yn ffrindiau gyda pherchnogion y bythynnod. Mae hwn yn lwybr hanesyddol ac yn annheg i ni orfod profi bod gennym hawl i gerdded y ffordd hon.

**Dyddiad:** 20/03/22

**Llofnod:** [redacted]




Enw / Name: GLENDA RICE

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: 20/03/22

**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

0 12.5 25 50 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Rhiannon Dullagan o 7 Dallton Mews, Behind Castlefield Manor, Malahide, Dublin, K36Y440 y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn yn 'Pen rallt' gan fynd i lawr y grisiau gan ddal i fynd yn syth ar y darn concrit. O'r fan hon, mae'r clwb hwylio ar y dde ac Pen Ogfa ar yr ochor chwith. Mae gennym gwt ar gefn y clwb hwylio. Ar ôl pasio Pen Ogfa ewch ymlaen at y ffynnon. Roeddwn yn arfer chwarae yn y ffynnon hon yn blant. Byddai'r pysgotwyr fel arfer yn cadw eu cychod rhwyfo yma. O'r fan hon, ewch i'r tri thŷ gwyn a'r y llwybr troed sydd ar flaen y tai ond ar du mewn y wal. Wrth ichi gerdded heibio gallwch weld y cytiau ar y gwair yn dod i fyny ar y chwith. Mae yna linell hir o gytiau yma. Ar ôl i chi gyrraedd yma allwch unai gerdded at y creigiau ar ddiwedd y llwybr neu ar y forwal. Roedd fy mhlant yn arfer hoffi mynd ar y creigiau.
3. Rwy'n cofio fy mam a nhad yn mynd â ni ar y llwybr troed hwn pan oeddem yn blant. Y cynharaf y gallaf gofio oedd bod tua 7 oed, ym 1972 yn chwarae o amgylch Pen Ogfa ac yn y ffynnon gyda fy chwiorydd. Mae fy nhaid wedi bod yn defnyddio'r llwybr troed hwn ymhell o fy mlaen i gan ei fod yn bysgotwr ac mae'r cwt wedi bod yn y teulu ers amser maith. Roedd fy nhaid hefyd yn ffrindiau gyda llawer o bobl a oedd yn byw yno gan gynnwys y bobl a oedd yn byw yn nhŷ pen y tri thŷ gwyn. Roedd yn ffrindiau gyda gwr y ddynes sy'n byw yno nawr. Mae'r gŵr wedi marw flynyddoedd yn ôl bellach. Roedd hefyd yn adnabod perchnogion Pen Ogfa. Nid chafodd erioed broblem wrth gerdded y llwybr troed hwn.
4. Rwyf wedi symud i Iwerddon yn 2001, fodd bynnag, rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr troed nawr. Byddai hyn oddeutu 3 gwaith y flwyddyn pan fyddaf yn ôl yn ymweld gan fod fy nheulu yn dal i fyw yn Nefyn.
5. Pan oeddwn i'n blentyn byddwn yn cerdded y llwybr troed bob dydd yn ystod gwyliau'r haf a phan fyddai'r ysgol ymlaen byddwn wedi bod yn mynd ar y llwybr troed o gwmpas unwaith bob penwythnos.
6. Pan oeddwn yn hŷn ar ôl 18 oed ac cyn i ni symud i fyw, byddwn yn cerdded y llwybr troed hwn unwaith bob tri mis. Weithiau byddwn yn mynd â fy mhlant ar y llwybr troed gan eu bod yn hoffi chwarae ar y creigiau a'r traeth.
7. Nid wyf yn tueddu i wneud cylch daith pan fyddaf defnyddio'r llwybr troed, rwyf fel arfer yn mynd i'r traeth ac yn ôl ar y llwybr troed. Weithiau byddwn yn cerdded yn ôl trwy fynd i fyny 'r grisiau ym Mhen Rallt neu weithiau ar hyd y traeth i Lon Gam.
8. Roedd yna amser pan ddefnyddiais y llwybr troed yn llai aml ac roedd hyn rhwng 1984 a 1988 gan mai dyma pryd roeddwn i ffwrdd yn y coleg. Byddwn adref tua bob deufis ac rwy'n credu y byddwn i ar y llwybr troed o leiaf unwaith yn yr amser hwn. Roeddwn i'n hoffi cerdded i lawr i'r traeth.
9. Rwyf byth yn cofio gweld arwydd llwybr cyhoeddus ar y llwybr troed hyd yn oed pan oeddwn i'n blentyn.
10. Nid wyf erioed wedi cael fy herio am gerdded y llwybr troed hwn ac nid oes unrhyw un wedi gweiddi arnaf am gerdded arno. Fel y soniais o'r blaen, nid yw fy nhaid byth yn cael problem wrth gerdded y llwybr troed hwn chwaith.

**Dyddiad:**......31/12/21......

**Llofnod:**.[redacted].............




**...lwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**

**...6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Carys Roberts o 13 Cefn y Twr, Nefyn, LL53 6ET y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn o'r grisiau ger y traeth. Ewch ymlaen ar y palmant i Benogfa, sydd ar ddechrau'r rhes o dai. Yma rydych chi'n cerdded ar balmant reit ar flaen y tai Gwyn a heibio tŷ o'r enw Hen Dafarn. Tai haf yw'r rhain. O'r fan hon, ewch ymlaen yn syth i'r cytiau i'r diwedd lle gallwch chi fynd i'r 'slipway' ar y dde. Pan fydd y llanw i mewn, yr unig ffordd i fynd ar y 'slipway' yw cerdded ar y palmant ar flaen y tai.
3. Rwyf wedi bod yn cerdded y llwybr troed hwn ers oeddwn yn blentyn yn ôl yn y 1950'au. Roedd fy nhad yn berchen ar un o'r cytiau yng nghanol y rhes o gytiau. Roedd ganddo gwch ar y 'slipway' hefyd. Yn ystod yr haf byddem yn cerdded y llwybr hwn bob dydd.
4. Pan oeddwn i'n blentyn tua 4-5 oed, byddai fy nhad yn mynd â ni ar y llwybr yma. Roedd un adeg pan oeddem yn ceisio mynd heibio ar y llwybr o flaen y tai ond roedd hi'n annifyr pasio'r byrddau yr oedd un o'r tai wedi'u rhoi ar y llwybr ac oeddent yn gyndyn i'w symud i ni fynd heibio. Ar ôl iddyn nhw ddadlau a ffraeo gyda fy nhad roedden ni'n gallu pasio. Rhaid bod hyn wedi bod ym 1965. Yn bersonol, nid wyf wedi cael fy herio fy hun.
5. Rwyf bellach yn 62 mlwydd oed ac yn dal i ddefnyddio'r llwybr troed heddiw. Pan fyddaf yn cerdded ar y llwybr hwn, mae ar gyfer pwrpasau hamdden uni i fynd i'r traeth neu'r 'slipway' yn y pen pellaf.
6. Fel arfer, byddwn i'n defnyddio'r llwybr yn llai yn yr haf oherwydd bod gormod o bobl o gwmpas. Mae'n well gen i ei gerdded yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd yn ddistawach. Ar yr adeg hon byddwn fel arfer yn defnyddio'r llwybr yn wythnosol. Dair blynedd yn ôl roedd gen i gi a byddwn i'n defnyddio'r llwybr yn amlach tua 2-3 gwaith yr wythnos.
7. Weithiau pan fyddaf yn cerdded ar y llwybr hwn byddwn yn gwneud cylched, trwy ddefnyddio'r llwybr i'r 'slipway', yna mynd yn ôl tuag at Morfa Nefyn, gan basio'r clogwyn tuag at Dŷ Tafarn.
8. Mae arwydd ychydig heibio Penogfa, ar ddechrau'r tai. Mae'n wyrdd a melyn mewn lliw ac mae ganddo ddyn bach gwyn arno. Mae gwaelod y polyn wedi'i osod â sment. Mae'r arwydd yn dal i fod yno nawr.

**Dyddiad:**..[redacted]..........

**Llofnod:**...20.12.2021.....




Enw / Name: CARYS ROBERTS

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: 20.12.2021

**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

0 12.5 25 50 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Owen Glyn Jones o 14 Cefn y Twr, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6ET y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr yn cychwyn o'r traeth wrth y grisiau, o'r fan hon rydych chi'n cerdded tuag at y rhes o dai. Y tŷ cyntaf yw Penogfa. Mae'r llwybr troed yn union o flaen y tai ac ar ôl pasio'r tŷ o'r enw Hen Dafarn, rydych chi'n parhau tuag at y cytiau. Mae fy cwt yn y canol ac rwy'n talu trethi ar y cwt hwn. O'r fan hon, gallwch chi barhau at y 'slipway' sydd ar y dde. Yr unig ffordd o gyrraedd y cytiau ag y 'slipway' pan fydd y llanw i fyny yw trwy gerdded ar y palmant o flaen y tai. Mae'r llanw'n aros i fyny am oddeutu 5-6 awr.
3. Rwyf wedi bod yn cerdded y llwybr troed hwn gyda fy nhad ers oeddwn yn blentyn yn ôl yn y 1950'au. Rwyf bellach yn 70 ac yn dal i ddefnyddio'r llwybr troed heddiw er nad mor aml oherwydd fy nghoesau. Rwy'n defnyddio'r llwybr troed i gerdded i lawr i'm cwt sydd yng nghanol rhes o gytiau, mae'r cwt hwn wedi bod yn y teulu ers cenedlaethau.
4. Roeddwn i'n arfer cerdded ar y llwybr troed hwn bob dydd yn yr haf i fynd i'm cwch ac llai yn y gaeaf tua un waith yr wythnos. Nawr rwy'n defnyddio'r llwybr troed at bwrpasau hamdden.
5. Roedd yna adegau y byddwn i'n defnyddio'r llwybr troed yn llai bob blwyddyn gan y byddwn i'n mynd allan i bysgota môr ag allai fod wedi mynd ers dau i dri mis ar y tro.
6. Mae arwydd wrth ymyl yr Hen Dafarn. Mae'n wyrdd a melyn mewn lliw. Nid wyf yn siŵr a yw'n dal i fod yno nawr.
7. Nid wyf wedi cael fy herio'n bersonol. Rwy'n gwybod bod y bobl sy'n byw yn un o'r tai yn gweiddi ar rywun o hyd am gerdded ar y llwybr troed. Daeth rhywun allan o un o'r tai i hel fy merch a'i phlant o'r traeth 2-3 blynedd yn ôl. Heriwyd fy nhad hefyd yn ôl yn y 1950au pan oeddem yn trio mynd heibio ar y llwybr troed.

**Dyddiad:**...20/12/21............

**Llofnod:** [redacted]




Enw / Name: OWEN GWYN JONES

Llofnod / Signature: 20/12/21

Dyddiad / Date: [redacted]

**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

0 12.5 25 50 Medr / metre

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387


**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf i, Tony Roberts o Rhos Bridiw, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BI y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr troed cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Rwy'n gyfarwydd â'r llwybr a hawlir, fel y dangosir gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr troed yn cychwyn ar waelod y grisiau, ewch yn syth ymlaen gan basio'r clwb hwylio ar y dde a'r cytiau bach ar y chwith. Nesaf mae'r ddaear yn mynd i fyny ychydig nes eich bod chi'n cyrraedd tri thŷ gwyn. O'r fan hon, rydych chi'n cerdded o flaen y tai ac ar du mewn y wal. Mae'r llanw uchel yn cyrraedd y wal hon. Ar ddiwedd y tai bu tirlithriad yn gorchuddio rhan o'r llwybr troed. O'r fan hon mae'r ddaear ychydig yn uwch eto ac rydych chi'n cerdded yn syth ymlaen, gyda'r cytiau ar y chwith a dyma lle gallwch chi gerdded ar y slip ar y dde neu i chi barhau i'r creigiau ar ddiwedd y cytiau.
3. Dechreuais i a fy ngwraig ddefnyddio'r llwybr troed hwn pan symudom yma ym 1983. Rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr troed heddiw ar gyfer cerdded y ci a byddwn fel arfer yn cerdded y llwybr troed o gwmpas unwaith yr wythnos. Yn ystod misoedd y gaeaf, rydw i'n tueddu i gerdded llai. Byddwn yn cerdded y llwybr troed o gwmpas unwaith y mis yn ystod y gaeaf a byddai hyn ar benwythnosau yn bennaf.
4. Roeddwn i'n arfer cadw cwch yma tua 5 mlynedd yn ôl, gan olygu y byddwn i'n aml yn cerdded y llwybr troed yn enwedig ar lanw uchel neu i gasglu fy nghwch oddi ar y slip gyda fy nghar. Rhwng mis Mai a mis Medi byddwn i yno bron yn ddyddiol i fynd i lawr i'm cwch.
5. Fel arfer byddwn yn gyson yn cerdded i'r slip bellaf ac yn ôl. Er, nid yn aml iawn rydw i wedi mynd rownd ar y creigiau, o amgylch y trwyn, ac yn ôl i Nefyn neu weithiau i draeth Porthdinllaen.
6. Byddai fy ngwraig yn dod i gerdded gyda mi ar y llwybr troed hwn ac rydym yn aml yn mynd i lawr y ffordd hon gyda theulu a ffrindiau. Rydyn ni'n mwynhau dangos y rhan hon o Nefyn i'n teulu a'n ffrindiau pan maen nhw'n ymweld oherwydd ei fod yn lle braf i fynd â nhw.
7. Rwy'n credu bod arwydd llwybr cyhoeddus wrth ymyl Pen Ofga, er nad wyf yn siŵr a yw yno nawr.
8. Nid wyf wedi cael fy herio am gerdded y llwybr troed hwn, er fy mod yn gwybod am y trafferthion diweddar rhwng pobl y tai a phobl ar y traeth.

**Dyddiad:** 3/07/22

**Llofnod:** [redacted]




Enw / Name: Tony ROBERTS

Llofnod / Signature: [redacted]

Dyddiad / Date: 5/01/2022

**Llwybr cyhoeddus honedig / Alleged public footpath**
**Nefyn, LL53 6EP, Cyf. Grid / Grid Ref.- SH2940**

© Hawlfraint y Goron a hawliau ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023387
© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023387

**O ran cais gan Gyngor Cymuned Nefyn i gofrestru llwybr troed cyhoeddus ger Harbwr Nefyn.**

Gwnaf I, David Phillips o 1 Glan y Pwll, Nefyn, Pwllheli Gwynedd, LL53 6EH, y datganiad hwn i gefnogi cais i gofrestru llwybr cyhoeddus fel y disgrifir uchod a dywedaf fel a ganlyn:

1. Yr wyf yn gyfarwydd â'r llwybr a hawliwyd, fel y nodwyd gan linell goch ar y cynllun.
2. Mae'r llwybr troed yn dechrau yn ''Penrallt'' ar ben y grisiau. Wrth i chi gerdded i lawr rydych chi'n pasio'r shalley ar y chwith a'r clwb hwylio i'r dde. Ewch yn syth ar y llawr concrid nes i chi basio Pen Ogfa ar y chwith, dyma lle rydych chi'n mynd ar ddarn o wair, lle byddwch chi'n dod o hyd i arwydd llwybr troed cyhoeddus. O'r fan hon mae cwpl o risiau i lawr i'r patio o flaen y tri thŷ gwyn. Dyma lle rydych chi'n cerdded ar y slabiau ar y tu mewn i'r wal. Dyma'r unig ffordd o gyrraedd pan fydd ar lanw uchel. Ar ddiwedd y tai roedd grisiau i gyrraedd y rhan nesaf arall o wair. Nawr mae tirlithriad sydd wedi digwydd yno ac sydd bellach yn gorchuddio'r llwybr troed. Wrth i chi fynd ar y gwair, rydych chi'n pasio llawer o gytiau traeth i'r chwith. Mae slipway ychydig o'ch blaen i'r dde ac mae'r morglawdd yn ymyl y slipway. Ym mhen draw'r cytiau gallwch fynd ar y pyllau creigiau.
3. Rwyf wedi defnyddio'r llwybr troed hwn ers i mi fod tua 6 oed yn y 1960au. Byddwn yn mynd i lawr ar y llwybr troed hwn gyda fy nhad, taid, brawd a chwaer.
4. Pan oeddwn yn blentyn byddwn yn treulio bron bob dydd o'm gwyliau haf yn cerdded ar y llwybr troed hwn i fynd i lawr i'r traeth i chwarae.
5. Rwy'n dal i ddefnyddio'r llwybr troed nawr a bron bob dydd. Nid oes cyfnod wedi bod, lle nad wyf wedi bod yn cerdded y llwybr troed. Mae'r postmon yn gadael fy mhost yn harbwr Nefyn, sy'n rheswm arall pam yr wyf yn ei ddefnyddio bob dydd.
6. Mae gennyf lawer o ffrindiau sydd â chychod i lawr yn yr harbwr a byddwn yn aml yn cerdded ar y llwybr troed hwn yn mynd i lawr i sgwrsio neu helpu gydag unrhyw beth yr oedd angen iddynt ei wneud gyda'u cychod. Nid yn aml iawn ond byddwn hefyd yn mynd â'm hwyrion a'm hwyresau ar y llwybr troed hwn i lawr i'r traeth.
7. Weithiau byddwn yn gwneud cylched gan ddefnyddio'r llwybr troed drwy fynd i lawr y grisiau yn ''Penrallt', gan barhau ar y llwybr troed nes cyrraedd y creigiau. O'r fan hon rwy'n cerdded dros y creigiau nes i mi droi i gerdded i fyny'r clogwyn serth i ben ''Pen Penrhyn'' ac yna'n ôl adref.
8. Mae arwydd llwybr cyhoeddus ger Pen Ogfa. Mae ar y rhan gwair cyn y tai gwyn. Mae'r arwydd ar bolyn dur gyda saeth werdd sydd â symbol o berson yn cerdded ond nawr mae wedi pylu.
9. Nid wyf erioed wedi cael fy herio na'm stopio am ddefnyddio'r llwybr troed hwn.

**Dyddiad:**… ………………………………….

**Llofnod:**……………………………

**Atodiad 4 / Appendix 4**

**Lluniau Mr Blackham Photographs**



4ydd Ion 2016 / 4th Jan 2016



4ydd Ion 2016 / 4th Jan 2016



4ydd Hyd 2018 / 4th of October 2018



4ydd Ion 2016 / 4th Jan 2016



4ydd Ion 2016 / 4th Jan 2016



4ydd Ion 2016 / 4th Jan 2016


22 Mawrth 2016 / 22nd March 2020

**Derbyniwyd ymateb dyddiedig 27/04/2022 gan Ms Jan Dorian Bhaggeerutty, The Deanery, Church Road, Broseley, Swydd Amwythig a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Mae Ms Bhaggeerutty wedi cadarnhau nad oes gweithredu wedi digwydd i atal defnyddio'r llwybr a hawlir.

- Mae Ms Bhaggeerutty yn cadarnhau ei bod wedi defnyddio'r llwybr ei hun am gyfnod o 60 mlynedd.

**Derbyniwyd ymateb dyddiedig 27/04/2022 gan Mr John Boardman Makinson Cyfreithiwr, 8 Lache Lane, Caer, CH4 7LP, a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Eglurodd Mr Broadman ei fod wedi prynu'r cwt glan y môr ers 1989 ac mae bob amser wedi ystyried bod y llwybr cyhoeddus yn hawl tramwy cyhoeddus.

- Nid yw'n nodi unrhyw wrthwynebiad tuag at y llwybr.

**Derbyniwyd ymateb dyddiedig 09/05/2022 gan Robin James Blackham ac Amanda Saman Blackham o Benogfa, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Mae Mr Blackham yn datgan ei wrthwynebiad tuag at y llwybr cyhoeddus.

- Mae Mr Blackham yn egluro nad oes llwybr cyhoeddus wrth lan y môr, ac nad oes un wedi bodoli. Mae'r datganiad yn mynd ymlaen i ddisgrifio sut mae pobl yn defnyddio'r traeth fel modd o gael mynediad ac yn disgrifio digwyddiadau achlysurol lle mae gan ddefnyddwyr fynediad at ei eiddo yn ystod llanw uchel, lle mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn parchu eiddo preifat ac yn cael mynd heibio drwy ewyllys da gan Mr Blackham. Caiff rhai defnyddwyr eu disgrifio fel amharchus, ac mae Mr Blackham yn gwrthwynebu defnyddwyr ar y llwybr.

- Yn 2014, prynodd Mr Blackham Pen Ogfa a bu tirlithriad ddiwedd mis Rhagfyr, oedd yn golygu bod Mr Blackham wedi defnyddio ffensys diogelwch o amgylch yr adeilad a'r llwybr am gyfnod o ddwy flynedd nes bod y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau. Mae lluniau o'r digwyddiad hwn wedi'u darparu (Gweler atodiad 6 am luniau).

**Derbyniwyd ymateb pellach gan Mr Blackham ar 30/05/22 - a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Cadarnhaodd Mr Blackham bod yr her cyntaf oddeutu mis Medi 2015 ac roedd yr heriau yn anghyson gan fod y mwyafrif o bobl yn barchus o'u tir preifat.
- Eglurwyd natur a diben yr heriau hyn wrth i Mr Blackham ddisgrifio'r ffaith bod pobl yn cerdded yn fwriadol rhyngddynt wrth iddynt fwyta y tu allan ac wrth ddiddanu gwesteion wrth gynnal barbeciw.
- Eglurodd Mr Blackham hefyd bod yr eiddo yn cynnwys camerâu ar du blaen a chefn yr eiddo a'u bod wedi dal pobl yn croesi y tu blaen i'r eiddo ac yn crwydro i gefn yr eiddo. Mae'r datganiad yn parhau drwy nodi bod pobl yn cerdded at y drws ffrynt ac yn edrych drwy'r ffenest gan wneud i deulu Mr Blackham deimlo'n anghyfforddus.
- Mae perchnogion Pen Ogfa hefyd yn ymwybodol o berchnogion bythynnod eraill ar hyd y traeth sydd hefyd yn herio pobl am ddefnyddio'r llwybr. Mae enwau penodol yn cynnwys y teulu Mason, y teulu Spencer a chyn-berchnogion eiddo'r teulu Mason.
- I gefnogi datganiad Mr Blackham, mae lluniau hefyd wedi cael eu darparu gyda chyfeirnod dyddiad (Gweler Atodiad 6).

**Derbyniwyd ymateb dyddiedig 15/05/2022 gan Christopher Layton Blackham, Manor Farm, Church End, Leckhampstead, Buckingham, MK18 5NY a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Mae Mr Blackham yn egluro ei fod yn berchen ar Morlais ac wedi gweld y llwybr yn cael ei ddefnyddio am 55 mlynedd.

- Mae'r datganiad yn mynd ymlaen i ddisgrifio bod Pen Ogfa wedi'i gau gyda ffens tra bo' gwaith atgyweirio yn cael ei wneud i'r tŷ ac ochr y clogwyn.

- O'i sylwadau, mae Mr Blackham yn disgrifio nad yw pobl yn glynu at lwybr uniongyrchol y llwybr cyhoeddus a'u bod yn cerdded ymhob man. Codwyd pryderon hefyd am addasrwydd y llwybr oherwydd pryderon diogelwch a'r lleoliad, a'i fod yn ystyried bod y llwybr yn anymarferol.

- Mae Mr Blackham yn dangos dealltwriaeth o'r ewyllys da o roi mynediad yn ystod llanw uchel pan mae pobl yn gofyn am ganiatâd i gael mynediad ac mae'n datgan nad oes hawliau i'r llwybr.

**Derbyniwyd ymateb dyddiedig 30/05/2022 gan Hywel Roberts, Penrhyn, Rhodfa'r Môr, Nefyn, LL53 6EB a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Mae Mr Roberts yn egluro ei fod yn berchen ar gwt glan y môr wrth ymyl yr hawl tramwy cyhoeddus honedig ac nid yw erioed wedi cymryd camau i atal y cyhoedd rhag defnyddio'r llwybr.

- Mae'r llythyr yn mynd ymlaen i egluro bod Mr Roberts ei hun wedi cerdded y llwybr ers symud i fyw i Nefyn yn 1966.

- Mae Mr Roberts yn mynegi ei fod yn cefnogi'r achos yn llawn, yn enwedig gan mai'r llwybr hwn yw'r unig ffordd gall y cyhoedd gael mynediad at y lithrfa a'r morglawdd pan mae'r llanw'n uchel.

**Derbyniwyd ymateb dyddiedig 30/05/2022 gan James Swash, 6 Danesbrook, Claverley, Wolverhampton, WV5 7BB a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Yn gyntaf, mae Mr James Swash yn datgan ei fod yn cynrychioli Mr Peter Swash a Mr Kenneth Swash a'i fod wedi darparu sylwadau ar eu rhan.

- Mae'r ymateb yn dechrau wrth ddarparu cyfeiriad at y cwt glan y môr mae ei deulu yn berchen arno a chynllun cyfatebol gan Gofrestrfa Dir EF. Mae'n rhannu gwybodaeth bod ei deulu wedi bod yn berchen ar y cwt glan y môr ers dros 60 mlynedd.

- Caiff gwrthwynebiad ei nodi'n glir tuag at yr hawl tramwy cyhoeddus honedig gan ei fod yn effeithio ar y tir y tu blaen i gwt glan y môr y teulu.

- Drwy gydol y cyfnod o 60 mlynedd, mae Mr Swash yn ymhelaethu bod gweithredu wedi digwydd i atal y cyhoedd rhag defnyddio'r llwybr wrth roi byrddau, cadeiriau, teganau plant, yn ogystal â phethau eraill, ar draws yr hawl tramwy cyhoeddus honedig.

- Pan mae'r cyhoedd yn holi am y llwybr ac yn gofyn os oes modd iddynt barhau, mae Mr Swash yn eu hail-gyfeirio i lawr at y traeth ac yn pwyntio tuag at y morglawdd.

- Mae Mr Swash yn egluro mai'r unig bobl sydd wedi cael croesi eu tir yw pobl maent wedi gweld o'r blaen a phobl sy'n berchen ar eu cytiau glan y môr eu hunain. Mae Mr Swash yn credu bod hawl gan y pobl hyn i fynd heibio.

- Yn yr ymateb, mae Mr Swash yn nodi ffyrdd eraill sy'n atal mynediad ac yn cyfeirio at y tirlithriad a ddigwyddodd ar ochr ogleddol Hafod y Môr. Mae'r rhan hon wedi'i chau gan ffens ar hyn o bryd ac mae wedi bod yn ei le am oddeutu blwyddyn. Dywed Mr Swash bod hyn yn ei hun yn tarfu ar fynediad ar draws yr hawl tramwy cyhoeddus honedig.

- Mae Mr Swash hefyd yn ymwybodol o berchnogion eraill sydd wedi ymdrechu i hysbysu'r cyhoedd nad yw'r llwybr yn hawl tramwy cyhoeddus.

**Derbyniwyd ymateb dyddiedig 26/05/2022 gan Mr Andrew Mason a Mrs Louise Mason o Glan y Môr, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Yn gyntaf, mae Mr a Mrs Mason yn nodi yn eu datganiad ei fod ef a'i wraig wedi bod yn berchen ar Glan y Môr ers fis Mawrth 2016. Mae'r datganiad yn mynegi nad oes hawl tramwy cyhoeddus wedi'i nodi yn y gweithredoedd eiddo na'r Gofrestrfa Dir; fodd bynnag, mae'n nodi bod hawliau mynediad preifat rhwng ein eiddo ni ac eiddo cyfagos.

- Ers prynu Glan y Môr, maent wedi gweld pobl yn cerdded o flaen yr eiddo ar adegau; fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Mr a Mrs Mason yn egluro bod y mwyafrif helaeth o bobl yn cerdded ar hyd y traeth gan ddefnyddio amrywiaeth o lwybrau gwahanol. Mae Mr Mason yn darparu manylion o ddefnydd yn ystod llanw uchel. Nid yw mynediad yn parhau i fod ar gael ar hyd y traeth yn aml (ac eithrio'r penllanw uchaf, sy'n digwydd sawl gwaith y flwyddyn).

- Mae Mr a Mrs Mason wedi ymdrechu i herio pobl sy'n defnyddio'r llwybr. Cafodd yr heriau hyn eu disgrifio fel eu bod wedi'u gwneud ar lafar ac mewn modd cwrtais. Mae'r Masons wedi cyfarwyddo'r cyhoedd eu bod yn croesi eiddo preifat sy'n berchen iddyn nhw ac nad oes hawl tramwy yn bodoli.

- Digwyddodd yr her fwyaf diweddar ar 19 Mawrth 2022, am 12.30pm. Dywedodd y Masons wrth y cwpl ei fod yn eiddo preifat ac na ddylent fod yn defnyddio'r llwybr.

- Mae Mr a Mrs Mason yn egluro eu bod yn ymwybodol bod y teulu Spencer wedi bod yn herio pobl ers sawl blwyddyn am ddefnyddio'r llwybr gan eu bod yn gymdogion i'r Spencers. Mae Mr a Mrs Mason hefyd yn ymwybodol o berchnogion Pen Ogfa, sydd hefyd yn herio defnyddwyr y llwybr.

- Cafodd Glan y Môr ei gau i ffwrdd am gyfnod o 18 mis gan Mr a Mrs Mason gan fod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud, o fis Ionawr 2017 tan fis Mehefin 2018. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd ffens ei roi o amgylch yr eiddo, ac mae Mr a Mrs Mason yn honni nad oedd modd defnyddio'r llwybr o'i amgylch.

- Dywed Mr a Mrs Mason nad yw'r llwybr wedi'i ddefnyddio gan y cyhoedd fel hawl am unrhyw gyfnod di-dor gan fod y Masons a'u cymdogion wedi herio yn aml.

- Daw'r datganiad i ben gan nodi'n glir nad yw Mr a Mrs Mason erioed wedi bwriadu datgan y llwybr honedig fel hawl tramwy cyhoeddus.

**Derbyniwyd ymateb dyddiedig 27/05/2022 gan Mr Mervyn Greenhalgh o Edrin, Tan y Llan, Nefyn, Gwynedd LL53 6LD a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Yn gyntaf, mae datganiad Mr Greenhalgh yn dechrau drwy ddisgrifio'r llwybr cyhoeddus honedig mewn manylder a nodi ei fod yn drysorydd y clwb hwylio.

- Ymhellach i'r datganiad, mae Mr Greenhalgh yn mynegi ei fod wedi cerdded ar y llwybr cyhoeddus hwn yn rheolaidd am 75 mlynedd ac yn egluro ei fod wedi derbyn sylwadau adeiladol o'r llwybr honedig.

- Un o'r sylwadau mae Mr Greenhalgh yn ymhelaethu arno yw sut mae'r cyhoedd yn defnyddio'r llwybr. Dywed mai'r llwybr mae cerddwyr fel arfer yn mynd arno yw troi'n uniongyrchol o flaen Clwb Hwylio Nefyn, mynd ar draws y traeth, ac ail-ymuno â'r ramp cerbyd sy'n ymuno â'r llwybr. Mae defnyddwyr hefyd yn dewis y pwynt mynediad hwn wrth fynd at y creigiau dros y lithrfa.

- Ar ddiwedd datganiad Mr Greenhalgh, mae'n mynegi mai'r unig amser mae defnyddwyr yn cael eu gorfodi i gerdded o flaen y tri bwthyn gwyn yw pan mae llanw uchel.

- Mae Mr Greenhalgh yn nodi nad yw erioed wedi gweld unrhyw ddefnyddwyr yn cael eu herio am ddefnyddio'r llwybr o flaen y tri bwthyn gwyn.

**Derbyniwyd ymateb dyddiedig 05/07/2022 gan Mrs Jane Spencer o Hafod-y-Môr, Y Traeth, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Dechreua Mrs Spencer wrth egluro ei chysylltiadau teuluol â'r bythynnod. Prynodd taid ei gŵr ddau fwthyn adfeiliedig a thir yn 1919, ac adeiladodd Hafod y Môr yn y 1920au.

- Yn natganiad Mrs Spencer, mae'n sôn bod llwybr preifat ar gyfer y bythynnod yng ngweithredoedd wal fôr yr eiddo.

- Mae Mrs Spencer yn cofio arwydd llwybr cyhoeddus yn cael ei godi gan bobl lleol yn ystod y 1970au, ac mae dal i fod yno heddiw. Pe byddai wedi dewis cael gwared â'r arwydd bryd hynny, byddai wedi achosi drwgdeimlad helaeth tuag at bobl oedd yn credu ei fod yn hawl tramwy cyhoeddus.

- Caiff Pen Ogfa a Glan y Môr eu crybwyll yn natganiad Mrs Spencer hefyd, gan gyfeirio at y ffaith bod y ddau eiddo wedi cael eu gwerthu yn ddiweddar ac y dylai'r gweithredoedd sôn am lwybr preifat.

- Yn ystod cyfnod o 17 mlynedd pan oedd Mrs Spencer yn byw yn barhaol yn Hafod y Môr, mae wedi gweld pobl yn defnyddio'r llwybr ac mae'n datgan bod y rhan fwyaf o bobl naill ai'n cerdded i lawr at lwybr y clogwyn ac ar y traeth, neu ar draws y traeth o flaen y bythynnod fel mynediad at y morglawdd.

- O ran y llanw uchel iawn, eglurodd Mrs Spencer bod y mwyafrif o bobl yn defnyddio'r llwybr yn ystod y cyfnod hwn yn bobl sy'n berchen ar gytiau glan y môr a chychod wrth ymyl y morglawdd. Mae Mrs Spencer yn ymwybodol eu bod yn defnyddio'r wal fôr i fynd at y cytiau glan y môr a chychod, ac mae'n nodi nad yw hyn byth yn broblem gan ei bod yn adnabod y mwyafrif o'r bobl hyn.

- Mae'r datganiad yn parhau i ganolbwyntio ar amlder y defnydd gan rai tystion ac mae'n cwestiynu rhai honiadau am dystion yn cerdded ar y llwybr 2-3 gwaith yr wythnos. Ym mis Mehefin a Gorffennaf (2022), mae Mrs Spencer yn nodi yn ystod y ddau fis hwn, mai dim ond un ymwelydd ac un person lleol y mae hi wedi'u gweld yn defnyddio'r llwybr dros ei phatio.

- Nododd Mrs Spencer bod blynyddoedd lle nad oedd modd defnyddio'r llwybr ac eglurodd bod tirlithriad wedi digwydd yng ngardd Hafod y Môr yn 2010 a'i fod wedi cwympo ar ran o'r llwybr. Yn 2018, cafodd Pen Ogfa dirlithriad, yna cafodd waith adeiladu, a chafodd Glan y Môr llawer o waith atgyweirio a barodd oddeutu 3 blynedd. Bu tirlithriad arall yn Hafod y Môr yn 2018 ac mae wedi bod ar gau ers oddeutu 18 mis.

**Derbyniwyd ymateb arall dyddiedig 22/08/2022 gan Mrs Jane Spencer o Hafod-y-Môr, Y Traeth, Nefyn, Pwllheli, LL53 6EP a gellir ei grynhoi fel a ganlyn:-**

- Mae ymateb pellach Mrs Spencer yn egluro nad yw hi, nag unrhyw aelod o'i theulu, wedi gweithredu yn bersonol i atal defnyddwyr rhag defnyddio'r hawl tramwy cyhoeddus honedig.

- Daeth yr ymateb hwn i ben gyda datganiad clir yn disgrifio nad oes ganddi broblem gyda defnyddwyr yn defnyddio'r llwybr yn ystod llanw uchel.


Morglawdd/
Breakwater


Llwybr honedig / Claimed route
Pwynt E / Point E
Morglawdd/ Breakwater
Ramp i gerbyd / Vehicle ramp


Oddeutu lleoliad llwybr rhif 19e/
Approx location of Footpath Number 19e
Tirlithriad
/Landslide




Llwybr yn dod lawr / Path leading down
Llithrfa / Slipway


Pwynt A
(Oddeutu) /Point
A (Approx)




Lithrfa cyntaf / First slipway
Cytiau traeth / Beach huts






Arwydd llwybr troed rhwng Pen Ogfa
Hendafarn / Footpath sign between Pe
Ogfa and Hendafarn


Pen Ogfa
Hendafarn patio


Wal o flaen Hafod y Mor /
Wall in front of Hafod y Mor.




**Bythynod gwyn / White cottages - Hendafarn, Glan y Mor & Hafod y Mor**


Traeth o gytiau traeth / Row of beach huts


lwybr lawr o A i B / Path
eading down from A to B


Rhes o gytiau traeth / Row of beach huts


Morglawdd / Breakwater
Cwt traeth olaf ger Pwynt E / Last Beach Hut at Point


Creigiau /
Rockpools


Pwynt E/
Point E




Morglawdd/
Breakwater